MERCHED Y WAWR
Disgrifiad Swydd Swyddog Datblygu Gogledd Orllewin Cymru a Maldwyn Powys
(sef ardaloedd Aberconwy, Arfon, Dwyfor, Maldwyn Powys, Meirionnydd a Môn)

DYDDIAD DECHRAU'R SWYDD:	1 Chwefror 2010, (neu mor fuan â phosibl wedi hynny)
CYFNOD Y SWYDD:	Cytundeb 12 mis i'w adolygu'n flynyddol yn ddibynnol ar gwblhau'r cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus.. Ariennir y swydd yn rhannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
ORIAU GWAITH:	25 awr yr wythnos – oriau hyblyg i'w trafod gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol. Ystyrir rhannu swydd. Hefyd ystyrir ceisiadau gan unigolion sydd am weithio mewn ardal benodol.
CYFLOG:	Graddfa 23 - 27 pro rata (i'w adolygu)

TEITL A DISGRIFIAD SWYDD

Cyflogir chi gan Ferched y Wawr, Elusen Wirfoddol Rhif 506789, fel Swyddog Datblygu Rhanbarth Swyddog Datblygu Gogledd Orllewin Cymru a Maldwyn Powys. Mae'n hanfodol fod yr ymgeiswyr yn rhugl yn y Gymraeg. Disgwylir i chi fod yn gydnabyddus ag amcanion a delfrydau'r Mudiad. Disgwylir i chwi ymgymryd â gwaith cyffredinol y mudiad o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

DYLETSWYDDAU:

1. Cynnal aelodaeth bresennol yr ardal trwy :
   - i) gynnal amrywiol weithgareddau yn Rhanbarthol ac yn lleol
   - ii) gadw cysylltiad a'r aelodau trwy ymweld â changhennau a Phwyllgorau Rhanbarth
   - iii) gynnig cymorth a chyngor i'r aelodau a swyddogion canghennau pan fo'r angen a chynorthwyo'r canghennau i lunio rhaglenni
   - iv) hyrwyddo gweithgareddau cenedlaethol mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwr.

2. Cynyddu aelodaeth yr ardal trwy :
   - i) sefydlu canghennau
   - ii) gynnal gweithgareddau i hyrwyddo'r Mudiad mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwr a'r Swyddogion Rhanbarthol
   - iii) ddosbarthu deunydd hysbysebu'r Mudiad
   - iv) godi statws trwy gynrychioli'r Mudiad ar wahanol gyrff a phwyllgorau lleol
   - v) gynrychioli'r Mudiad ar y Fforymau Iaith lleol a chydweithio â phartneriaid Bwrdd yr Iaith

3. Denu aelodau iau trwy :
    i) gydweithio'n agos â'r Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr i sefydlu Clybiau Gwawr
    ii) geisio creu cysylltiad agos rhwng y Clybiau Gwawr â'r Rhanbarth a'r canghennau

4. Denu aelodau newydd ymysg y dysgwyr trwy :
    i) hyrwyddo'r Mudiad trwy ymweld â chymdeithasau dysgwyr
    ii) hysbysu cymdeithasau dysgwyr am ddigwyddiadau a chystadlaethau Merched y Wawr i ddysgwyr
    iii) gydweithio gyda'r Mentrau Iaith a chymdeithasau dysgwyr er mwyn trefnu gweithgareddau arbennig i ddysgwyr nad ydynt yn aelodau gan roi cyfle iddynt flasu gweithgareddau Merched y Wawr ac ymaelodi

5. Arddangos a gwerthu nwyddau'r Mudiad

6. Mynychu'r Pwyllgor Rhyngranbarthol (2), y Cyfarfod Blynyddol (1),Is-bwyllgorau Cenedlaethol yn ôl y galw.

7. Mynychu cyrsiau sydd yn berthnasol i'r swydd mewn ymgynghoriad ac ar gais y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Llywydd Cenedlaethol

8. Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr i drefnu a chynnal stondin y Mudiad yn ystod Eisteddfod yr Urdd, Sioe Amaethyddol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol pan fo Rhanbarth ardaloedd Aberconwy, Arfon, Dwyfor, Maldwyn Powys, Meirionnydd neu Môn yn gyfrifol am eu noddi

9. Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol fel bo'r galw

10. Unrhyw waith arall perthnasol a chyffredinol i swyddogaeth y Mudiad yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Llywydd Cenedlaethol

LLEOLIAD AC ORIAU GWAITH

Mae'r swydd yn un 25 awr yr wythnos – oriau hyblyg. Disgwylir i'r person a apwyntir weithio gyda'r hwyr ac yn ystod y penwythnosau yn achlysurol. Bydd y person a apwyntir yn gweithio o gartref – trafodir adnoddau megis ffôn, ffacs a chyfrifiadur yn dilyn cyfweliad. Os gweithir oriau ychwanegol gellir cael amser yn rhydd yn ei le, yn unol â chytundeb gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

TEITHIO

Bydd disgwyl i'r Swyddog deithio fel rhan o'r swydd ac mae trwydded yrru a char yn hanfodol. Telir costau teithio yn unol â thelerau Llywodraeth Leol.

GRADDFA A CHYFLOG

Telir yn fisol. Graddfa 23 - 27 pro rata (i'w adolygu)

GWYLIAU

20 dydd y flwyddyn pro rata ynghyd â 8 o wyliau cyhoeddus a Dydd Gŵyl Ddewi.